# Comisiwn y Senedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 19 Mehefin 2023** |
| Amser: | **10.30** |

## Cofnodion: SC(6)2023(5)

Aelodau'r Comisiwn:

**Y Gw. Anrh. Elin Jones AS (Cadeirydd)**
**Rhun ap Iorwerth AS**
**Janet Finch-Saunders AS**
**Ken Skates AS**
**Joyce Watson AS**

Swyddogion yn bresennol:

**Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd**
**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**
**Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau**
**Simon Hart, Pennaeth dros dro y Gwasanaethau Ariannol**
**Kate Innes, Prif Swyddog Cyllid**
**Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol**
**Leanne Baker, Prif Swyddog Pobl dros dro**
**Matthew Jones, Rheolwr Cynaliadwyedd**
**Mair Parry-Jones, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi**
**Sarah Dafydd,** Rheolwr Newid a Gwella Busnes
**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**
**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**

Eraill yn bresennol:

## 1 Cyflwyniad

Croesawyd Kate Innes i'w chyfarfod Comisiwn cyntaf fel y Prif Swyddog Cyllid.

### 1.a Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 1.b Datgan buddiannau

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

### 1.c Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 22 Mai.

## 2 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn 2022-23

Trafododd y Comisiynwyr eu hadroddiad blynyddol a'u cyfrifon ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023. Cawsant sicrwydd bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi argymell cymeradwyo'r adroddiad, a chytunwyd ar y fersiwn derfynol i'w chyhoeddi, yn amodol ar unrhyw fân gywiriadau neu olygiadau.

## 3 Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd 2022-23

Cyflwynodd y Comisiynydd gyda'r portffolio datblygu cynaliadwy yr adroddiad ar berfformiad cynaliadwyedd ystâd y Senedd a gweithrediadau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd yr adroddiad yn amlygu cyflawniadau amgylcheddol allweddol, perfformiad yn erbyn targedau gan gynnwys ail flwyddyn y Strategaeth Carbon Niwtral, y defnydd o gyfleustodau, a chrynodeb o'r gwelliannau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Trafododd y Comisiynwyr fesurau arbed ynni ac awgrymwyd y gallai fod yn ddefnyddiol casglu data ychwanegol mewn perthynas â theithio mewn cerbydau trydan.

Cytunodd y Comisiynwyr i gyhoeddi'r adroddiad yn amodol ar unrhyw fân gywiriadau neu olygiadau, ac i ddarparu'r adroddiad i'r Pwyllgor Cyllid yn unol â'i argymhelliad sy'n ymwneud â gwybodaeth am arbed ynni.

## 4 Adroddiad Blynyddol y Cynllun Ieithoedd Swyddogol 2022-23

Cyflwynodd y Comisiynydd gyda'r portffolio Ieithoedd Swyddogol yr adroddiad ar y gwaith a wnaed ar draws y sefydliad i alluogi'r Comisiwn i gynnal ei ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol, gan gynnwys cymeradwyo a gweithredu'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd.

Cytunodd y Comisiynwyr ar yr adroddiad gan nodi y byddai dadl yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei threfnu cyn diwedd y tymor.

## 5 Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022-23

Cyflwynodd y Comisiynydd gyda'r portffolio Cydraddoldebau yr Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2022-23, a oedd yn adrodd ar gynnydd a wneir gan dimau ar draws Comisiwn y Senedd o ran cyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi yn Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Comisiwn (2022-26).

Nododd y Comisiynwyr y penawdau o ddiddordeb ac eitemau newydd yn adroddiad eleni gyda'r bwriad o gynyddu tryloywder data a gwella hygyrchedd. Trafodwyd y data economaidd-gymdeithasol a lledaeniad daearyddol yr ymateb i recriwtio i swyddi'r Comisiwn.

Cytunodd y Comisiynwyr ar yr adroddiad i'w gyhoeddi, ynghyd â'r gyfres gysylltiedig o adroddiadau data Amrywiaeth a Chynhwysiant a fyddai'n cyflawni dyletswyddau'r sector cyhoeddus a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Cytunodd y Comisiynwyr hefyd ar y cynnig i adnewyddu aelodaeth y Comisiwn o Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall ar gyfer 2024/25.

## 6 Adroddiad Adolygu Urddas a Pharch

Trafododd y Comisiynwyr ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad ar ganlyniad yr adolygiad urddas a pharch.

Clywodd y Comisiynwyr am gynlluniau rhai grwpiau i orfodi cyfranogiad mewn hyfforddiant urddas a pharch a chytunwyd ar werth eirioli bod yr hyfforddiant a gynigir gan y Comisiwn yn cael ei gymryd gan yr holl Aelodau a'u staff yn ddieithriad.

Awgrymwyd y dylid ystyried urddas a pharch wrth i staff ryngweithio ar ddechrau ac ar ddiwedd eu cyflogaeth. Trafodwyd hefyd bwysigrwydd darparu gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i bawb y mae materion sy'n gysylltiedig ag urddas a pharch yn effeithio arno, ac amlygwyd ei bod wedi bod yn ddefnyddiol pan oedd gwybodaeth yn cael ei harddangos yn gorfforol ar yr ystâd.

Cytunodd y Comisiynwyr ar yr adroddiad, ei wyth argymhelliad a'r camau nesaf; yn benodol:

- ailddatgan eu hymrwymiad i gefnogi a datblygu diwylliant o urddas a pharch ar draws y Senedd;
- gwahodd Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd i ystyried canfyddiadau'r adolygiad, gan gynnwys y dylai'r Senedd roi Datganiad trosfwaol ar y cyd ar Urddas a Pharch yn lle'r polisi tair rhan presennol;
- cytuno ar ddatganiad trosfwaol drafft ar y cyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Safonau;
- camau i'w cymryd o fewn y Comisiwn ynghyd â chyfrifoldebau clir am arweinyddiaeth a gweithgareddau; ac
- eirioli ymhlith eu grwpiau, a'r Aelodau annibynnol, fod yr hyfforddiant urddas a pharch a gynigir gan y Comisiwn yn cael ei gymryd gan yr holl Aelodau a'u staff yn ddieithriad.

Cytunodd y Comisiynwyr y byddai'r adroddiad yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a fyddai'n cyhoeddi'r adroddiad fel rhan o'i waith ar y mater hwn, y Comisiynydd Safonau, y Bwrdd Taliadau a'r Grŵp Cyswllt Gwleidyddol.

## 7 Papurau i'w nodi:

### 7.a Diweddariad Ffyrdd o Weithio

Nododd y Comisiynwyr y diweddariad am gyfeiriad a chynnydd eu rhaglen newid mawr 'Ffyrdd o Weithio', wrth i'r gwaith symud y tu hwnt i gyfnod y Cynllun Gweithredu Cychwynnol i'w gyfnod cyflawni strategol.

### 7.b Canlyniadau’r Arolwg Staff Blynyddol

Nododd y Comisiynwyr yr adroddiad ar Arolwg Staff Blynyddol Comisiwn y Senedd ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

### 7.c Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 27 Ebrill

Nododd y Comisiynwyr y diweddariad a ddarperir fel mater o drefn i'r Comisiwn am gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

### 7.d Diweddariad y Bwrdd Gweithredol (penderfyniadau awdurdodi recriwtio)

Nododd y Comisiynwyr y crynodeb o benderfyniadau recriwtio a ddarperir fel mater o drefn i bob cyfarfod o'r Comisiwn.

## 8 <u>Unrhyw fater arall</u>

Diwygio'r Senedd – cafodd y Comisiynwyr wybod bod disgwyl i Lywodraeth Cymru wneud cais i addasu'r rhagdybiaethau ar gyfer amcangyfrifon costau Comisiwn y Senedd yn sgil Bil Diwygio'r Senedd sydd yn yr arfaeth. Byddai gwybodaeth yn cael ei darparu i gyfarfod y Comisiwn ym mis Gorffennaf.

Llythyr gan PCS - cafodd y Comisiynwyr wybod am lythyr gan Gangen y PCS yng Nghomisiwn y Senedd.

Newid Comisiynydd – diolchodd Rhun ap Iorwerth i bawb a oedd wedi gweithio gydag ef a'i gefnogi yn ystod ei gyfnod fel Comisiynydd, cyn iddo ymddiswyddo.